# Lefel 3 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau

## Canllawiau Addysgu
## Uned 4

# UNED 4

# DEALL SUT MAE CYFLYRAU CYFFREDIN YN EFFEITHIO AR Y CORFF DYNOL

## Cyflwyniad:

Prif nod y canllawiau unedau hyn yw cefnogi'r broses o addysgu a dysgu ac i fod yn gydymaith i'r Fanyleb. Mae pob un o'r canllawiau unedau yn cynnig esboniad manwl o bwyntiau allweddol yn y Fanyleb gyda'r nod o esbonio meysydd cymhleth o gynnwys y pwnc.

## Rhaglen Astudio:

Mae'r gweithgareddau a ddarperir yma yn awgrymiadau ar gyfer datblygu gwybodaeth dysgwyr yn unig. Mae'n rhaid i bob canolfan benderfynu a yw'r gweithgareddau yn briodol i'w dysgwyr, a chydnabyddir y gall amodau lleol bennu'r dull a fabwysiedir. Er y gall rhai o'r gweithgareddau a awgrymir olygu ymgysylltu â'r sector, noder bod y mwyafrif o'r gweithgareddau wedi'u cynllunio i gael eu cynnal yn yr ystafell ddosbarth. Bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth drwy'r profiad y byddant yn ei ennill wrth gyflawni pob gweithgaredd. Mae adborth ffurfiannol hanfodol i'r broses ddysgu, er mwyn sicrhau bod y dysgwr yn datblygu'r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i ennill y graddau gorau posibl. Mae enghreifftiau o weithgareddau wedi'u rhoi yn y canllawiau hyn sy'n cynnig digon o gyfle i roi adborth ffurfiannol.

## Trosolwg o'r uned:

Mae'r uned hon yn adeiladu ar wybodaeth a dealltwriaeth a feithrinwyd drwy unedau 1-3. Yn yr uned hon, bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o gyflyrau cyffredin; y mathau o gyflyrau a'u hachosion, a byddant yn ymchwilio i'r ffordd y gallant effeithio ar y corff dynol, yn ogystal â'r gofal a chymorth sydd ar gael i unigolion sy'n byw gyda chyflyrau ffisiolegol a'r heriau y gallent eu hwynebu. **Nid oes angen i ymgeiswyr wybod na deall anatomi na ffisioleg system y corff y mae'r cyflwr yn effeithio arni.**

## Asesiad:

Caiff yr uned hon ei hasesu drwy aseiniad penodol sy'n cynnwys un dasg: ysgrifennu erthygl ar gyfer cylchgrawn iechyd a gofal cymdeithasol a llunio ffeithlun. Mae'r aseiniad yn seiliedig ar ddau ysgogiad a gyhoeddir o fewn cyfnod amser penodol; bydd angen i ddysgwyr gyfeirio at yr ysgogiadau hyn wrth ymateb i'r tasgau yn yr asesiad Bydd dysgwyr yn cael amser penodol i lunio'r dystiolaeth ar gyfer yr asesiad hwn, gan gwblhau'r gwaith dan oruchwyliaeth yn y ganolfan.

Mae'r cyflyrau a restrir yn y fanyleb yn enghreifftiau o gyflyrau cyffredin sydd i'w cael yng Nghymru. Nid yw'r rhestr o gyflyrau yn y fanyleb yn un gynhwysfawr a gall yr ysgogiadau a gyhoeddir ar gyfer yr Asesiad Di-arholiad gynnwys cyflyrau cyffredin eraill sydd i'w cael yng Nghymru.

Gall canolfannau drefnu i'r asesiad gael ei gynnal unrhyw bryd unwaith y bydd cynnwys yr uned wedi'i gyflwyno.

© WJEC CBAC Cyf

## Enghraifft o raglen astudio ar gyfer:
## **Uned 4 Deall sut mae cyflyrau cyffredin yn effeithio ar y corff dynol**

| Maes Testun | Gweithgareddau | Adnoddau | Gwaith cartref |
|---|---|---|---|
| **4.1**<br>Mathau o heintiau a'u hachosion, y ffyrdd y caiff heintiau eu trosglwyddo a'r cyflyrau dilynol | Cyflwyno cynnwys yr uned a dulliau asesu.<br><br>Cyflwyno cysyniadau a therminoleg newydd:<br>• haint<br>• cyflwr heintus<br>• cyflwr anhrosglwyddadwy<br>• cyflwr trosglwyddadwy<br>• haint systemig<br>• haint lleol<br>• heintiau acíwt<br>• heintiau cronig<br>• heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd<br>• pathogenau<br>• heintiau prion<br><br>Dysgwyr i lunio map meddwl grŵp o gyflyrau cyffredin y gallent fod wedi clywed amdanynt i'w trafod yn y dosbarth; yna gellid rhannu'r rhestr o gyflyrau cyffredin yn gyflyrau heintus/trosglwyddadwy ac yn gyflyrau anhrosglwyddadwy/ffisiolegol. | Clefydau Heintus – Cyflwyniad (fideo):<br>https://www.youtube.com/watch?v=9axOFtPqS0c<br><br>Rhwydwaith Iechyd Cyhoeddus Cymru – Clefydau Anhrosglwyddadwy:<br>https://www.publichealthnetwork.cymru/en/topics/noncommunicable-diseases-ncds/<br><br>Sefydliad Iechyd y Byd: Unwch yn y frwydr yn erbyn clefydau anhrosglwyddadwy (fideo):<br>https://www.youtube.com/watch?v=AvwX1m4LR4w | Adnoddau ar-lein CBAC.<br><br>Dysgwyr i lunio adnodd adolygu neu restr termau o derminoleg newydd sy'n gysylltiedig â'r uned. |
| | Gallai dysgwyr ymchwilio i erthyglau am heintiau systemig a lleol a'u heffeithiau i'w crynhoi a'u cyflwyno i'r dosbarth<br><br>Trafodaeth a arweinir gan diwtor ynghylch y gwahaniaethau rhwng y canlynol:<br>• haint systemig<br>• haint lleol. | Erthygl y Coleg Nyrsio Brenhinol ar Sepsis:<br>https://www.rcn.org.uk/clinical-topics/Infection-prevention-and-control/Sepsis<br><br>'NursingSOS' – Pathoffisioleg Sepsis mewn 7 cam syml (fideo):<br>https://www.youtube.com/watch?v=oaWUMrsnl04 | Adnoddau ar-lein CBAC. |

© WJEC CBAC Cyf

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Gallai dysgwyr lunio adnodd adolygu ar achosion ac effeithiau nifer o fathau gwahanol o heintiau (bacteriol, ffwngaidd, firol, protosoaidd, prion), gan gynnwys arwyddion a symptomau haint systemig a lleol | Beth yw clefyd lleol? (fideo): https://www.youtube.com/watch?v=jmRWHzmB8fo | Dysgwr i lunio nodiadau adolygu byr ar bedair ochr o bapur A4 ynglŷn â thestunau a drafodwyd yn ystod yr wythnos. |
| | Dysgwyr i ymchwilio'n barod am drafodaeth a arweinir gan ddysgwr ar y difrod hirdymor a allai ddigwydd ar ôl dal haint systemig neu leol a all arwain at yr angen am ofal a chymorth, e.e. Clefyd Lyme, meningitis, malaria, y dwymyn doben/clwy'r pennau.<br><br>Ar ôl y drafodaeth, gallai dysgwyr lunio map meddwl sy'n addas ar gyfer adolygu effeithiau tymor hir dal haint systemig neu leol, gan roi enghreifftiau. | Goroeswyr sepsis yn wynebu problemau hirdymor (fideo): https://www.youtube.com/watch?v=btC4-2DGkwY<br><br>Clefyd Lyme: https://www.nhs.uk/conditions/lyme-disease/<br><br>Malaria: https://www.nhs.uk/conditions/malaria/complications/<br><br>Clwy'r pennau (mumps): https://www.nhs.uk/conditions/mumps/complications/ | Adnoddau ar-lein CBAC.<br><br>Dysgwr i lunio nodiadau adolygu byr ar bedair ochr o bapur A4 ynglŷn â thestunau a drafodwyd yn ystod yr wythnos.<br><br>Dysgwr i feddwl am gwestiynau a'u hysgrifennu yn barod i'w gofyn i'r siaradwr gwadd yn y wers nesaf. |

© WJEC CBAC Cyf

| | | | |
|---|---|---|---|
| | ***Siaradwr gwadd* – Nyrs Rheoli Heintiau** yn trafod:<br>• cylch trosglwyddo heintiau<br>• sut mae heintiau yn mynd i mewn i'r corff:<br>  • trosglwyddo yn yr aer<br>  • amlynciad<br>  • drwy hylifau'r corff<br>  • trosglwyddo gan gludwyr<br>  • trosglwyddo gan ddŵr<br>• mesurau ataliol.<br><br>Gallai dysgwyr lunio ffeithlun yn esbonio'r uchod ar gyfer lleoliad gofal. | Adnoddau e-Bug:<br>https://www.e-bug.eu/index.html#Welsh<br><br>WHO – Beth yw'r cydrannau craidd ar gyfer atal a rheoli heintiau'n effeithiol? (fideo):<br>https://www.youtube.com/watch?v=LZapz2L6J1Q<br><br>WHO – Golchwch eich dwylo i atal heintiau (fideo):<br>https://www.youtube.com/watch?v=oFpiS2_8L28<br><br>WHO – Animeiddiad clefyd wedi'i drosglwyddo gan gludwyr (fideo):<br>https://www.youtube.com/watch?v=0xSUITkRvbA | * Dysgwr i gofio cofnodi ymweliad y siaradwr gwadd yn y Log Ymgysylltu â'r Sector. |
| | Trafodaeth a arweinir gan diwtor ynghylch y gadwyn heintio, gan roi enghreifftiau sy'n cynrychioli pob dolen o'r gadwyn i ddeall sut y gellir lledaenu heintiau.<br><br>Dysgwyr i lunio diagramau i ddangos y gwahanol gamau neu gysylltau yng nghadwyn yr haint.<br><br>Dysgwyr i feddwl am ddwy enghraifft o haint a chymhwyso cadwyn yr haint (e.e. annwyd, COVID-19, haint a drosglwyddir yn rhywiol, ac ati) | https://www.nipcm.hps.scot.nhs.uk/infection-prevention-and-control-manual-for-older-people-and-adult-care-homes/print?section=2820<br><br>https://www.bfwh.nhs.uk/onehr/wp-content/uploads/2016/02/Unit-4-Infection-Prevention-1.pdf | Adnoddau ar-lein CBAC<br><br>Dysgwr i lunio nodiadau adolygu byr ar bedair ochr o bapur A4 ynglŷn â thestunau a drafodwyd yn ystod yr wythnos. |

© WJEC CBAC Cyf

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Trafodaeth a arweinir gan ddysgwyr ynghylch sut y gellir torri'r gylchred ar gyfer trosglwyddo heintiau er mwyn atal yr haint rhag cael ei drosglwyddo drwy dorri cadwyn yr haint a dileu un neu fwy o'r cysylltau yn y gadwyn.<br><br>Dysgwyr i ddefnyddio'r wybodaeth a gafwyd o'r drafodaeth i lunio ffeithluniau am atal a rheoli heintiau a sut y gellir atal heintiau mewn lleoliad iechyd a gofal cymdeithasol. | https://www.nursingtimes.net/clinical-archive/infection-control/infection-outbreaks-in-care-homes-prevention-and-management-14-08-2017/ | Dysgwr i lunio nodiadau adolygu byr ar bedair ochr o bapur A4 ynglŷn â thestunau a drafodwyd yn ystod yr wythnos. |
| | Paratowch ddysgwyr i lunio ffeithlun sy'n addas ar gyfer cylchgrawn iechyd a gofal cymdeithasol - fel canllaw, dylai'r erthygl gynnwys tua 500 o eiriau (gellid ei hysgrifennu ar ddogfen yn gyntaf cyn ei throsglwyddo i'r ffeithlun).<br><br>Dysgwyr i ddefnyddio Ysgogiad 1 yr Asesiad Di-arholiad enghreifftiol ar gyfer Uned 4 i lunio ***ffeithlun ymarfer***. Rhaid i'r ffeithlun gynnwys cyfeiriadau at y canlynol:<br>• y math o haint<br>• sut mae'r haint yn cael ei achosi<br>• y gylchred ar gyfer trosglwyddo'r haint gan gynnwys sut mae'n mynd i mewn i'r corff<br>• unrhyw niwed tymor hir a fyddai'n gallu digwydd o ganlyniad i'r haint | Uned 4 – Deunyddiau Asesu Enghreifftiol: https://www.dysguiechydagofal.cymru/media/2339/q7-l3-hsc-pplusc-isams-u1plusu3-u4-u6-dip-final-w-250521.pdf (Tudalennau 41 a 42)<br><br>Beth yw ffeithlun? https://piktochart.com/blog/what-is-an-infographic/ | |

© WJEC CBAC Cyf

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Gallai dysgwyr gynnal adolygiad gan gymheiriaid o ffeithluniau ymarfer yn barod ar gyfer y dasg asesu derfynol<br>• a yw'r holl wybodaeth ofynnol wedi'i chynnwys?<br>• a yw'n strwythur addas ar gyfer ffeithlun?<br>• a oes gwybodaeth gywir wedi'i chynnwys?<br>• a gyfeiriwyd at yr holl wybodaeth?<br>• a yw'n weledol ddeniadol?<br>• a oes defnydd priodol yn ei wneud o liw a delweddau? | Cynllun marcio deunyddiau asesu enghreifftiol Uned 4: https://www.dysguiechydagofal.cymru/media/2339/q7-l3-hsc-pplusc-isams-u1plusu3-u4-u6-dip-final-w-250521.pdf (Tudalennau 50 a 51) | Dysgwr i edrych ar y sylwadau o'r ymarfer cyn adolygu. |
| | **Asesiad:** Gellid gosod **Tasg (ch) Ysgogiad 2** yr Asesiad Di-arholiad nawr ***neu*** ar ôl i'r holl gynnwys gael ei gyflwyno – tua 4 awr o gyfanswm yr amser a neilltuir ar gyfer yr Asesiad Di-arholiad | Ysgogiadau a gyhoeddir | |

© WJEC CBAC Cyf

| Maes Testun | Gweithgareddau | Adnoddau | Gwaith cartref |
|---|---|---|---|
| **4.2**<br>Achosion ac effeithiau amrywiaeth o gyflyrau ffisiolegol | Trafodaeth a arweinir gan diwtor ynghylch beth yw ystyr cyflwr ffisiolegol a beth sy'n achosi cyflwr ffisiolegol.<br><br>Dysgwyr i feddwl am gyflyrau ffisiolegol cyffredin y gallent fod wedi clywed amdanynt yn barod i'w trafod.<br><br>Dysgwyr i ymchwilio i ddau gyflwr ffisiolegol a achosir gan y broses heneiddio (e.e. dementia, osteoarthritis) a llunio taflen ffeithiau am y canlynol:<br>• achos pob cyflwr ffisiolegol – h.y. pam mae'n digwydd<br>• y symptomau a brofir gan yr unigolyn<br>• sut y gellir ei ddiagnosio<br>• opsiynau triniaeth. | WHO – Dementia: https://www.who.int/health-topics/dementia#tab=tab_1<br><br>Beth yw dementia (fideo): https://www.youtube.com/watch?v=HobxLbPhrMc<br><br>Osteoarthritis (fideo): https://www.youtube.com/watch?v=CYTGpcPz3dg | Adnoddau ar-lein CBAC<br><br>Dysgwr i lunio nodiadau adolygu byr ar bedair ochr o bapur A4 ynglŷn â thestunau a drafodwyd yn ystod yr wythnos |
| | Dysgwyr i ymchwilio i ddau gyflwr ffisiolegol a achosir gan ddiffyg maethol (e.e. anaemia, y llech) a llunio taflen ffeithiau am y canlynol:<br>• achos pob cyflwr ffisiolegol – h.y. pam mae'n digwydd<br>• y symptomau a brofir gan yr unigolyn<br>• sut y gellir ei ddiagnosio<br>• opsiynau triniaeth. | Y llech ac osteomalacia: https://www.nhs.uk/conditions/rickets-and-osteomalacia/<br><br>WHO – Anaemia: https://www.who.int/health-topics/anaemia#tab=tab_1 | Adnoddau ar-lein CBAC<br><br>Dysgwr i lunio nodiadau adolygu byr ar bedair ochr o bapur A4 ynglŷn â thestunau a drafodwyd yn ystod yr wythnos. |

© WJEC CBAC Cyf

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Dysgwyr i ymchwilio i ddau gyflwr ffisiolegol a achosir gan ddewisiadau amgylcheddol neu ddewisiadau ffordd o fyw (e.e. Diabetes Math II, clefyd yr iau sy'n gysylltiedig ag alcohol) a llunio taflen ffeithiau am y canlynol:<br>• achos pob cyflwr ffisiolegol – h.y. pam mae'n digwydd<br>• y symptomau a brofir gan yr unigolyn<br>• sut y gellir ei ddiagnosio<br>• opsiynau triniaeth. | WHO – Diabetes: https://www.who.int/health-topics/diabetes#tab=tab_1<br><br>Clefyd yr iau sy'n gysylltiedig ag alcohol (fideo): https://www.youtube.com/watch?v=5PxuOL2pXFk | |
| | Dysgwyr i ymchwilio i ddau gyflwr ffisiolegol etifeddol (e.e. dystroffi cyhyrol, ffibrosis cystig) a llunio taflen ffeithiau amdanynt:<br>• achos pob cyflwr ffisiolegol – h.y. pam mae'n digwydd<br>• y symptomau a brofir gan yr unigolyn<br>• sut y gellir ei ddiagnosio<br>• opsiynau triniaeth.<br><br>Dysgwyr i ymchwilio i gyflwr ffisiolegol a achosir drwy anaf adeg geni (e.e. parlys yr ymennydd) a llunio taflen ffeithiau am y canlynol:<br>• achos y cyflwr ffisiolegol – h.y. pam mae'n digwydd<br>• y symptomau a brofir gan yr unigolyn<br>• sut y gellir ei ddiagnosio<br>• opsiynau triniaeth. | Dystroffi Cyhyrol Duchenne (fideo): https://www.youtube.com/watch?v=Ebu8W8Osuxk<br><br>Beth yn union yw ffibrosis cystig? (fideo): https://www.youtube.com/watch?v=4IGz5p4n8Fg<br><br>Charles Michael Duke ar ei frwydr gyda ffibrosis cystig (fideo): https://www.youtube.com/watch?v=TmxwelSyZ6o<br><br>Parlys yr Ymennydd (fideo): https://www.youtube.com/watch?v=UMe4qvbcO6Q<br><br>Parlys yr Ymennydd – Sgwrs Rhieni (fideo): https://www.youtube.com/watch?v=p7t017ng81s | Adnoddau ar-lein CBAC.<br><br>Dysgwr i lunio nodiadau adolygu byr ar bedair ochr o bapur A4 ynglŷn â thestunau a drafodwyd yn ystod yr wythnos.<br><br>Dysgwr i feddwl am gwestiynau a'u hysgrifennu yn barod i'w gofyn i'r siaradwr gwadd yn ystod y wers nesaf. |

© WJEC CBAC Cyf

| | | | |
|---|---|---|---|
| | ***Siaradwr Gwadd:* Therapydd Galwedigaethol** i drafod yr amrywiaeth o effeithiau y gall cyflyrau ffisiolegol eu cael ar unigolion a'r effaith ar weithgareddau bywyd bob dydd y maent yn eu gweld yn eu gwaith o ddydd i ddydd, gan gynnwys:<br>• effaith ar iechyd meddwl ac iechyd emosiynol yr unigolyn, ei deulu, ei ffrindiau a'i gylch ehangach<br>• heriau cyflogaeth<br>• heriau symudedd<br>• cymeriant maethol a hydradu<br>• hylendid personol<br>• effaith seicolegol<br>• rhyngweithio cymdeithasol.<br><br>Dysgwyr i weithio mewn parau neu grwpiau bach i lunio arddangosiad o'r effeithiau y gall un cyflwr ffisiolegol y maen nhw wedi'i astudio ei gael ar unigolion a'r effaith ar weithgareddau bywyd bob dydd. | Chronic Diseases: Everyone's Business (fideo): https://www.youtube.com/watch?v=da8iw9hvQX4&feature=emb_logo | * Dysgwr i gofio cofnodi ymweliad y siaradwr gwadd yn y Log Ymgysylltu â'r Sector.<br><br>Dysgwr i feddwl am gwestiynau a'u hysgrifennu yn barod i'w gofyn i'r siaradwr gwadd yn ystod y wers nesaf |

© WJEC CBAC Cyf

| Maes Testun | Gweithgareddau | Adnoddau | Gwaith cartref |
|---|---|---|---|
| **4.3**<br>Sut mae cyflyrau cyffredin yn effeithio ar y corff dynol | ***Siaradwr gwadd:* Nyrs Oncoleg** i drafod ***canser*** (dylid cyfyngu'r drafodaeth i'r pum canser mwyaf cyffredin yng Nghymru: canser y frest, y prostad a'r coluddion a melanoma) fel cyflwr cyffredin a geir yng Nghymru a'r effaith y gallai ei chael ar y corff dynol.<br><br>Dysgwyr i ymchwilio i'r cyflyrau cyffredin uchod mewn parau neu grwpiau bach i gyflwyno yn ôl i'r dosbarth ar ffurf cyflwyniad, gan ganolbwyntio ar effaith y cyflwr ar y corff dynol:<br>• arwyddion a symptomau<br>• triniaeth<br>• effeithiau tymor byr<br>• effeithiau tymor hir<br>• effeithiau lleiaf ar fyw o ddydd i ddydd<br>• effaith fawr ar fyw o ddydd i ddydd<br>• anghenion gofal neu gefnogaeth sydd eu hangen ar gyfer yr unigolyn sy'n byw â'r cyflwr, ei deulu, ei ffrindiau a'i gylch ehangach. | WHO – Canser: https://www.who.int/health-topics/cancer#tab=tab_1<br><br>Ymchwil Canser Cymru: https://www.cancerresearchwales.co.uk/<br><br>Rhwydwaith Canser GIG Cymru: https://cydweithrediad.gig.cymru/rhwydweithiau/rhwydwaith-canser-cymru/<br><br>GIG Iechyd yng Nghymru – Canser: http://www.wales.nhs.uk/pynciauiechyd/clefydau/canser | * Dysgwr i gofio cofnodi ymweliad y siaradwr gwadd yn y Log Ymgysylltu â'r Sector.<br><br>Dysgwyr i feddwl am gwestiynau a'u hysgrifennu yn barod i'w gofyn i'r siaradwr gwadd yn ystod y wers nesaf |
| | ***Siaradwr gwadd:* Nyrs Diabetes Arbenigol** i gyflwyno ***diabetes*** (Math I a Math II) fel cyflwr cyffredin a geir yng Nghymru a'r effaith y gallai ei chael ar y corff dynol. | Rhwydwaith Iechyd Cyhoeddus Cymru – Diabetes (Math II): https://www.publichealthnetwork.cymru/en/topics/noncommunicable-diseases-ncds/917/ | * Dysgwr i gofio cofnodi ymweliad y siaradwr gwadd yn y Log Ymgysylltu â'r Sector. |

© WJEC CBAC Cyf

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Dysgwyr i ymchwilio i'r cyflwr cyffredin uchod mewn parau neu grwpiau bach i gyflwyno yn ôl i'r dosbarth ar ffurf cyflwyniad, gan ganolbwyntio ar effaith y cyflwr ar y corff dynol:<br>• arwyddion a symptomau<br>• triniaeth<br>• effeithiau tymor byr<br>• effeithiau tymor hir<br>• effeithiau lleiaf ar fyw o ddydd i ddydd<br>• effaith fawr ar fyw o ddydd i ddydd<br>• anghenion gofal neu gefnogaeth sydd eu hangen ar gyfer yr unigolyn sy'n byw â'r cyflwr, ei deulu, ei ffrindiau a'i gylch ehangach. | GIG Iechyd yng Nghymru – Diabetes:<br>http://www.wales.nhs.uk/pynciauiechyd/clefydau/clefydsiwgr<br><br>Diabetes UK Cymru:<br>https://www.diabetes.org.uk/in_your_area/wales | Dysgwr i feddwl am gwestiynau a'u hysgrifennu yn barod i'w gofyn i'r siaradwr gwadd yn ystod y wers nesaf |
| | ***Siaradwr gwadd:*** **Nyrs Resbiradol Arbenigol** i gyflwyno ***twbercwlosis*** (TB) fel cyflwr cyffredin a geir yng Nghymru a'r effaith y gallai ei chael ar y corff dynol.<br><br>Dysgwyr i ymchwilio i'r cyflwr cyffredin uchod mewn parau neu grwpiau bach i gyflwyno yn ôl i'r dosbarth ar ffurf cyflwyniad, gan ganolbwyntio ar effaith y cyflwr ar y corff dynol:<br>• arwyddion a symptomau<br>• triniaeth<br>• effeithiau tymor byr<br>• effeithiau tymor hir<br>• effeithiau lleiaf ar fyw o ddydd i ddydd<br>• effaith fawr ar fyw o ddydd i ddydd<br>• anghenion gofal neu gefnogaeth sydd eu hangen ar gyfer yr unigolyn sy'n byw â'r cyflwr, ei deulu, ei ffrindiau a'i gylch ehangach. | WHO – Twbercwlosis:<br>https://www.who.int/health-topics/tuberculosis#tab=tab_1<br><br>TED-Ed –What makes TB the world's most infectious killer? (fideo):<br>https://www.youtube.com/watch?v=N0Gv96uDctM | * Dysgwr i gofio cofnodi ymweliad y siaradwr gwadd yn y Log Ymgysylltu â'r Sector.<br><br>Dysgwr i feddwl am gwestiynau a'u hysgrifennu yn barod i'w gofyn i'r siaradwr gwadd yn ystod y wers nesaf |

© WJEC CBAC Cyf

| | | | |
|---|---|---|---|
| | ***Siaradwr gwadd:*** **Nyrs Gardioleg Arbenigol** i gyflwyno cyflyrau sy'n effeithio ar y system cardiofasgwlar ***(e.e. clefyd coronaidd y galon, angina, arhythmia, strôc)*** fel cyflyrau cyffredin a geir yng Nghymru a'r effaith y gallent eu cael ar y corff dynol.<br><br>Dysgwyr i ymchwilio i'r cyflyrau cyffredin uchod mewn parau neu grwpiau bach i gyflwyno yn ôl i'r dosbarth ar ffurf cyflwyniad, gan ganolbwyntio ar effaith y cyflyrau ar y corff dynol:<br>• arwyddion a symptomau<br>• triniaeth<br>• effeithiau tymor byr<br>• effeithiau tymor hir<br>• effeithiau lleiaf ar fyw o ddydd i ddydd<br>• effaith fawr ar fyw o ddydd i ddydd<br>• anghenion gofal neu gefnogaeth sydd eu hangen ar gyfer yr unigolyn sy'n byw â'r cyflwr, ei deulu, ei ffrindiau a'i gylch ehangach. | WHO – Clefydau cardiofasgwlar: https://www.who.int/health-topics/cardiovascular-diseases#tab=tab_1<br><br>Rhwydwaith Iechyd Cyhoeddus Cymru – Clefyd Coronaidd y Galon: https://www.publichealthnetwork.cymru/en/topics/noncommunicable-diseases-ncds/coronary-heart-disease/ | * Dysgwr i gofio cofnodi ymweliad y siaradwr gwadd yn y Log Ymgysylltu â'r Sector.<br><br>Dysgwyr i feddwl am gwestiynau a'u hysgrifennu yn barod i'w gofyn i'r siaradwr gwadd yn ystod y wers nesaf |
| | ***Siaradwr gwadd:*** **Nyrs Resbiradol Arbenigol** i gyflwyno cyflyrau sy'n effeithio ar y system resbiradol ***(e.e. asthma, angina, clefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint COPD)*** fel cyflyrau cyffredin a geir yng Nghymru a'r effaith y gallent ei chael ar y corff dynol.<br><br>Dysgwyr i ymchwilio i'r cyflyrau cyffredin uchod mewn parau neu grwpiau bach i gyflwyno yn ôl i'r dosbarth ar ffurf cyflwyniad, gan ganolbwyntio ar effaith y cyflyrau ar y corff dynol:<br>• arwyddion a symptomau<br>• triniaeth<br>• effeithiau tymor byr<br>• effeithiau tymor hir | Rhwydwaith Iechyd Cyhoeddus Cymru – Asthma: https://www.publichealthnetwork.cymru/en/topics/noncommunicable-diseases-ncds/asthma/<br><br>WHO – Asthma: https://www.who.int/news-room/q-a-detail/asthma<br><br>Rhwydwaith Iechyd Cyhoeddus Cymru – COPD: https://www.publichealthnetwork.cymru/en/topics/noncommunicable-diseases-ncds/1032/<br><br>WHO – COPD: https://www.who.int/health-topics/chronic-respiratory-diseases#tab=tab_1 | * Dysgwr i gofio cofnodi ymweliad y siaradwr gwadd yn y Log Ymgysylltu â'r Sector. |

© WJEC CBAC Cyf

| | | | |
|---|---|---|---|
| | • effeithiau lleiaf ar fyw o ddydd i ddydd<br>• effaith fawr ar fyw o ddydd i ddydd<br>• anghenion gofal neu gefnogaeth sydd eu hangen ar gyfer yr unigolyn sy'n byw â'r cyflwr, ei deulu, ei ffrindiau a'i gylch ehangach. | | |
| | trafodaeth a arweinir gan diwtor i gyflwyno ***alergeddau*** fel cyflyrau cyffredin a geir yng Nghymru a'r effaith y gallent ei chael ar y corff dynol.<br><br>Dysgwyr i ymchwilio i'r cyflwr cyffredin uchod mewn parau neu grwpiau bach i gyflwyno yn ôl i'r dosbarth ar ffurf cyflwyniad, gan ganolbwyntio ar effaith y cyflwr ar y corff dynol:<br>• arwyddion a symptomau<br>• triniaeth<br>• effeithiau tymor byr<br>• effeithiau tymor hir<br>• effeithiau lleiaf ar fyw o ddydd i ddydd<br>• effaith fawr ar fyw o ddydd i ddydd<br>• anghenion gofal neu gefnogaeth sydd eu hangen ar gyfer yr unigolyn sy'n byw â'r cyflwr, ei deulu, ei ffrindiau a'i gylch ehangach.<br><br>Gellir defnyddio'r dull uchod i ymdrin â'r cyflyrau eraill yn y fanyleb, sef: ffliw, y frech goch, meningitis, MRSA, clwy'r pennau, norofirws, a'r pas. | Operation Ouch: What are allergic reactions? (fideo):<br>https://www.youtube.com/watch?v=huRybKL4Hhk<br><br>Adroddiad ar ITV Cymru, My allergies and me – the impact of living with an allergy:<br>https://www.itv.com/news/wales/2019-03-13/my-allergies-and-me-the-impact-of-living-with-an-allergy/ | Adnoddau ar-lein CBAC<br><br>Dysgwr i lunio nodiadau adolygu byr ar bedair ochr o bapur A4 ynglŷn â thestunau a drafodwyd yn ystod yr wythnos |

© WJEC CBAC Cyf

| Maes Testun | Gweithgareddau | Adnoddau | Gwaith cartref |
|---|---|---|---|
| **4.4**<br>Gofal a chymorth wrth fyw gyda chyflyrau a heriau ffisiolegol | Trafodaeth a arweinir gan diwtor ynghylch anghenion gofal a chymorth unigolion wrth fyw gyda chyflyrau a heriau ffisiolegol, gan gynnwys enghreifftiau priodol o'r canlynol:<br>• nodi asedau rhinweddau a chryfderau fy unigolyn<br>• diagnosis a monitro'r cyflwr<br>• asesu anghenion gofal a chymorth er mwyn adnabod canlyniadau llesiant personol<br>• ymyriadau, gofal, cefnogaeth a chyngor er mwyn gwella iechyd a llesiant<br>• cefnogi unigolion â thasgau byw o ddydd i ddydd<br>• gofal seibiant<br>• rhaglenni adsefydlu.<br><br>Bydd y rhain yn amrywio yn dibynnu ar y cyflwr a drafodir. | Asesiad Di-arholiad enghreifftiol ar gyfer Uned 4 o wefan dysguiechydagofal.cymru<br><br>Age Cymru – Asesu anghenion gofal a chymorth: https://www.ageuk.org.uk/global/Age-Cymru/Factsheets%20and%20information%20guides/FS41w.pdf?dtrk=true<br><br>Gofal Cymdeithasol Cymru – Llyfryn Canlyniadau Personol: https://gofalcymdeithasol.cymru/cms_assets/file-uploads/Personal-outcomes-booklet-CYM-PRINT.pdf<br><br>Gofal seibiant yng Nghymru – mathau o ddarpariaeth, cyllid: https://www.alzheimers.org.uk/get-support/help-dementia-care/respite-care-wales<br><br>Rhagnodi cymdeithasol: http://www.gofalsylfaenolun.cymru.nhs.uk/rhagnodi-cymdeithasol | Adnoddau ar-lein CBAC<br><br>Dysgwr i lunio nodiadau adolygu byr ar bedair ochr o bapur A4 ynglŷn â thestunau a drafodwyd yn ystod yr wythnos |
| | Gan symud ymlaen o'r sesiwn ddiwethaf, dysgwyr i gymhwyso'r wybodaeth a gafwyd o'r drafodaeth ynghylch y cyflyrau yn yr Asesiad Di-arholiad enghreifftiol at bob un o'r heintiau/cyflyrau a restrir yn 4.1, 4.2 a 4.3.<br><br>Y dosbarth i'w rannu'n barau/grwpiau bach i gymryd un cyflwr er mwyn cymhwyso'r wybodaeth hon ato a chyflwyno yn ôl i'r dosbarth. | | Adnoddau ar-lein CBAC<br><br>Dysgwr i lunio nodiadau adolygu byr |

© WJEC CBAC Cyf

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Sesiwn a arweinir gan diwtor ar y gwahanol fodelau iechyd a llesiant, gan gynnwys:<br>• model cymdeithasol<br>• model meddygol<br>• model bioseicogymdeithasol.<br><br>Dysgwyr i lunio cyfres o dri phoster i esbonio, gwerthuso a chymharu'r modelau gwahanol o iechyd a llesiant, i'w dangos yn yr ystafell ddosbarth.<br><br>Gallai dysgwyr restru cyflyrau yr ymdriniwyd â nhw yn y gweithgareddau dosbarth blaenorol a chymhwyso effeithiau'r gwahanol fodelau iechyd a llesiant ar unigolion sy'n byw gyda'r cyflyrau hyn. | Taflen ffeithiau Modelau Iechyd:<br>https://www.cdhn.org/sites/default/files/downloads/FACTSHEETS%201_Screen%20View%281%29.pdf | Adnoddau ar-lein CBAC<br><br>Dysgwr i lunio nodiadau adolygu byr ar bedair ochr o bapur A4 ynglŷn â thestunau a drafodwyd yn ystod yr wythnos. |

© WJEC CBAC Cyf

| Maes Testun | Gweithgareddau | Adnoddau | Gwaith cartref |
|---|---|---|---|
| **4.5** Strategaethau lleihau risgiau y gellir eu gweithredu er mwyn cefnogi iechyd a llesiant | Mae'r cynnwys hwn yn cyfuno'r wybodaeth a gafwyd o strategaethau a mentrau yn 2.4, 2.5 a 3.2.<br><br>Trafodaeth a arweinir gan diwtor ynghylch rhai o'r prif fentrau a strategaethau hybu iechyd lleol a chenedlaethol y gellir eu gweithredu er mwyn cefnogi iechyd a llesiant yn unol â deddfwriaeth bresennol, gan gynnwys:<br>• cynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd o gyflyrau sy'n effeithio ar iechyd a llesiant, gwasanaethau, gofal a chymorth sydd ar gael yn lleol ac yn genedlaethol yng Nghymru<br>• gwybodaeth am fentrau a strategaethau hybu iechyd presennol yng Nghymru<br>• dull person-ganolog i'r holl ofal a chymorth<br>• cymryd risgiau cadarnhaol<br>• clinigau iechyd rhywiol<br>• cefnogaeth camddefnyddio sylweddau<br>• cefnogi unigolion i oresgyn rhwystrau er mwyn cefnogi iechyd a llesiant, gan gynnwys model sy'n seiliedig ar gryfderau a gofal sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau.<br><br>Dysgwyr i ddewis cyflwr cyffredin a restrir yn 4.1, 4.2 neu 4.3 ac archwilio i fentrau lleol a chenedlaethol sydd ar gael i gefnogi iechyd a llesiant unigolyn sy'n byw â'r cyflwr hwn.<br>Dysgwyr i lunio adnodd i unigolion sy'n amlinellu'r prif fentrau a strategaethau cyfredol y gellid eu rhoi ar waith i gefnogi eu hiechyd a'u llesiant. | | Adnoddau ar-lein CBAC<br><br>Dysgwr i lunio nodiadau adolygu byr ar bedair ochr o bapur A4 ynglŷn â thestunau a drafodwyd yn ystod yr wythnos |

© WJEC CBAC Cyf

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Paratowch ddysgwyr i ysgrifennu erthygl sy'n addas ar gyfer cylchgrawn iechyd a gofal cymdeithasol – fel canllaw, dylai'r erthygl gynnwys tua 2,500 o eiriau.<br><br>Dysgwyr i ddefnyddio ***Ysgogiad 1 yr Asesiad Di-arholiad enghreifftiol ar gyfer Uned 4*** i ysgrifennu erthygl ymarfer sy'n addas ar gyfer cylchgrawn iechyd a gofal. | Uned 4 – Deunyddiau Asesu Enghreifftiol: https://www.dysguiechydagofal.cymru/media/2339/q7-l3-hsc-pplusc-isams-u1plusu3-u4-u6-dip-final-w-250521.pdf (Tudalennau 41 a 42)<br><br>BBC Bitesize: Ysgrifennu erthygl https://www.bbc.co.uk/bitesize/guides/z27cmnb/revision/5#:~:text=The%20structure%20of%20an%20article,that%20draws%20the%20points%20together | |
| | Gallai dysgwyr gynnal adolygiad gan gymheiriaid o erthyglau ymarfer yn barod ar gyfer y dasg asesu derfynol<br>• a yw'r holl wybodaeth ofynnol wedi'i chynnwys?<br>• a yw'n strwythur addas ar gyfer erthygl?<br>• a oes gwybodaeth gywir wedi'i chynnwys?<br>• a gyfeiriwyd at yr holl wybodaeth?<br>• a yw'n weledol ddeniadol?<br>• a oes defnydd priodol yn ei wneud o liw a delweddau? | Cynllun marcio deunyddiau asesu enghreifftiol Uned 4: https://www.dysguiechydagofal.cymru/media/2339/q7-l3-hsc-pplusc-isams-u1plusu3-u4-u6-dip-final-w-250521.pdf (Tudalennau 44-49) | Dysgwr i edrych ar y sylwadau o'r ymarfer cyn adolygu |
| | **Asesiad: Tasg (a)-(c) Ysgogiad 1** yr Asesiad Di-arholiad – tua 11 awr o gyfanswm yr amser a neilltuir ar gyfer yr Asesiad Di-arholiad | Ysgogiadau a gyhoeddir | |

© WJEC CBAC Cyf